# RHAGLEN ADDYSG PDSA

**Teitl**

Stereoteipiau Anifeiliaid

**Cyfnod allweddol**

1/2

**Testun**

Stereoteipiau

**Pwnc**

Iechyd a Lles

**Gweithgareddau a Gwmpesir**

Ymgysylltu â gwahanol ddylanwadau cymdeithasol a gwerthfawrogi pwysigrwydd parchu eraill.

Gwneud dewisiadau cadarnhaol, a dysgu sut mae'r rhain yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles eu hunain ac eraill.

**Deilliannau Cyflawni**

Rwy'n gallu hyrwyddo agweddau a gwerthoedd cadarnhaol mewn gwahanol grwpiau cymdeithasol a, lle y bo'n briodol, herio rhai niweidiol.

Rwy'n gallu adnabod a deall sut mae gwerthoedd a hunaniaeth pobl yn cael eu llywio gan wahanol grwpiau a dylanwadau.

Rwy'n gallu cyfleu'r hyn sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus ac adnabod ymddygiad caredig ac angharedig.

Rwy'n gallu cydnabod y perthnasoedd sydd gen i ag eraill.

Rwy'n gallu cyfathrebu pan nad wyf yn teimlo'n ddiogel neu'n cael fy mharchu.

**Amcanion dysgu**

Bydd y disgyblion yn gallu adnabod pan fyddan nhw'n barnu rhywun neu rywbeth yn seiliedig ar stereoteip.

**Deilliannau dysgu**

Pawb: Rwy'n gallu dweud a ydw i'n hoffi anifail ai peidio ar sail sut mae'n edrych.

Y rhan fwyaf: Rwy'n gallu disgrifio cymeriad anifail ar sail sut mae'n edrych.

Rhai: Rwy'n deall beth yw ystyr stereoteipio.

**Geiriau allweddol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stereoteip | Disgrifio | Cnoi | Brid | Y wasg |
| Anifail | Ansoddair | Ailgartrefu | Golwg | Mythau |
| Barnu | Staffie | Statws | Barn | Cywir |
| Hoffi/Ddim yn hoffi | Daeargi tarw | Peryglus | Teimladau | Anghywir |

**Cwestiynau allweddol**

Sut fyddech chi'n disgrifio cymeriad hwn?
Allwch chi enwi unrhyw gymeriadau mewn ffilmiau sy'n herio sut rydych chi'n teimlo am anifeiliaid?
Ydych chi'n hoffi'r anifail hwn?
Sut fyddech chi'n teimlo?
Pa fridiau sydd fwyaf tebygol o gnoi?

**Cwestiynau allweddol**

Mae'r sesiwn hon yn llawn gweithgareddau, felly bydd angen byrddau gwyn a phennau neu bapur a phen/pensil ar y disgyblion.
Copïau printiedig o sleid 19 - wedi'u torri'n ddau hanner.

| Gweithgarwch | Athro | Disgybl | Amser |
|---|---|---|---|
| Sleid 1: | Cyflwynwch PDSA a rhowch drosolwg byr o'r sesiwn. | | |
| Sleidiau 2-15: Gweithgarwch | Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n hoffi'r anifail ar sleidiau 13-15. Gofynnwch i rai o'r disgyblion roi rhesymau dros eu hateb. | Bydd y disgyblion yn dangos wyneb hapus neu wyneb trist (neu fys bawd i fyny/i lawr os nad oes ganddyn nhw fynediad at fyrddau gwyn). | |
| Sleid 16: Session overview | Gofynnwch i wirfoddolwr ddarllen amcanion a deilliannau'r wers yn uchel i'r dosbarth. | | |
| Sleid 17: Gweithgarwch | Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r cymeriad ar y sgrin.<br>Gofynnwch i rai disgyblion roi adborth i'r dosbarth.<br>Esboniwch beth yw ystyr 'stereoteip' gan ddefnyddio nodiadau'r sleidiau i'ch cefnogi chi. | Gall hwn fod yn ysgrifenedig (mewn llyfrau neu ar fyrddau gwyn) neu'n trafodaeth mewn pâr. | |
| Sleid 18: Gweithgarwch | Gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun tŷ (peidiwch â rhoi unrhyw arweiniad iddyn nhw). Gellid amseru hyn (1/2 funud). Ar ôl iddyn nhw orffen, esboniwch eu bod nhw'n cael 1 pwynt am bob eitem maen nhw wedi'i llunio mewn ffordd debyg i'r rhai ar y sleid (cliciwch drwodd i weld opsiynau). | Mae'r disgyblion yn tynnu llun o'r hyn maen nhw'n meddwl amdano pan rydych chi'n dweud tynnwch lun tŷ. Yn dilyn y gweithgarwch, maen nhw'n adio eu sgôr i fyny.<br>Os byddan nhw'n cael sgôr uchel, byddan nhw wedi tynnu llun tŷ ystrydebol.<br>Gweithgarwch ychwanegol os oes angen: Tynnwch lun Gwyddonydd.<br>1 pwynt am got labordy<br>1 pwynt am gogls<br>1 pwynt am wallt gwyn, gwyllt | |

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

# RHAGLEN ADDYSG PDSA

**Nodiadau**

| Gweithgarwch | Athro | Disgybl | Amser |
|---|---|---|---|
| Sleid 19: Gweithgarwc | Gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrthych chi pa eiriau maen nhw'n meddwl amdanyn nhw pan fyddwch chi'n gofyn iddyn nhw ddisgrifio siarc. | Dwylo i fyny. | |
| | Argraffwch y sleid hon cyn y sesiwn. Rhowch y siarc cyfeillgar i hanner y dosbarth a'r siarc cas i'r hanner arall. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu ansoddeiriau ar gyfer eu delwedd a rhoi adborth i'r dosbarth. A newidiodd hyn eu barn gychwynnol am siarcod? | Mae'r disgyblion yn gweithio mewn grwpiau neu barau i lunio rhestr o eiriau. | |
| Sleid 20: Gweithgarwch | Gofynnwch i'r disgyblion enwi unrhyw gymeriadau mewn ffilmiau sy'n herio sut maen nhw'n teimlo am anifeiliaid penodol. Enghreifftiau ar y sleid. Gallai enghreifftiau pellach gynnwys:<br>- Unrhyw un o'r anifeiliaid yn Madagascar<br>- Baloo yn Jungle Book<br>- Stuart Little | Efallai y bydd rhai disgyblion yn ei chael hi'n haws gweithio mewn parau. | |
| Sleid 21: Bridiau Cŵn | Gofynnwch i'r disgyblion pa fridiau maen nhw'n meddwl sydd fwyaf tebygol o gnoi.<br>Maen nhw'n debygol o gyfeirio at y cŵn mwy o faint, ond yr ateb yw eu bod nhw i gyd yr un mor debygol o gnoi â'i gilydd os cânt eu pryfocio. | | |
| Sleid 22: Fideo | Dangoswch y fideo ac esboniwch fod y ci yn dangos arwyddion yn dweud wrth ei berchennog am adael llonydd iddo. | Ystyriwch pwy oedd ar fai, y ci neu ei pherchennog?? | |
| Sleid 23: Staffies | Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r ci yn y ddelwedd (Staffie). | | |
| Sleidiau 24 - 29: Cwis | Cwblhewch y cwis fel dosbarth. | Bydd y disgyblion yn ateb cywir neu anghywir. | |
| Sleidiau 30 - 31: Straeon | Rhannwch yr hyn sydd gan ein cefnogwr plant a'n nyrs filfeddygol i'w ddweud. | | |
| Sleid 32: | Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r Staffie. A ydyn nhw wedi newid eu meddwl nawr eu bod nhw'n gwybod mwy? | | |
| Sleid 33: | Diolch gan PDSA | | |

**Gweithgarwch ymestyn**

Mae gweithgareddau pellach o'r sesiwn hon ar lefel aur Gwobrau Ysgol PetWise.

**Addasiadau ar gyfer anghenion ychwanegol**

Ar gyfer disgyblion ag ASD:
- Addaswch uchder unrhyw fideos a gwiriwch am synau uchel

Ar gyfer disgyblion â dyslecsia:
- Argraffwch y taflenni gwaith ar bapur lliw
- Newidiwch y cefndir PowerPoint i bwff/melyn golau

Ar gyfer disgyblion ag AAA:
- Parwch nhw â disgybl mwy abl/cynorthwyydd addysgu

Ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw:
- Gofalwch fod gan unrhyw fideos a ddefnyddir isdeitlau

**Gwerthusi**

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585